BBC Audience Council for Wales
Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC

CYFRINACHOL **WEDI'U CADARNHAU**

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN DDARLLEDU'R BBC, LLANDAF, CAERDYDD DDYDD GWENER 5 MEHEFIN 2009

Yn bresennol:

Aelodau o'r Cyngor Cynulleidfa

Janet Lewis Jones (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru)
Sangeet Bhullar (tan eitem 50)
Nicola Branson
Andrew Carter
Nicola Cockburn
Carl Cooper
Roy Grant
Andrew Jones
Arun Midha
Teresa Rees
Dafydd Whittal

Staff BBC Cymru Wales:
Clare Hudson, BBC Cymru Wales, Pennaeth Rhaglenni, Saesneg
Cathryn Allen, BBC Cymru Wales, Pennaeth Datblygu Darlledu
Rhodri Talfan Davies, BBC Cymru Wales, Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd
Mark O'Callaghan, BBC Cymru Wales, Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes
Geoff Williams, BBC Cymru Wales, Pennaeth Chwaraeon (ar gyfer eitem 51).
(Bu sawl un o staff BBC Cymru Wales yn y cyfarfod yn ysbeidiol, oherwydd datblygiadau newyddion a roedd yn digwydd yng nghyswllt ad-drefnu Cabinet y Llywodraeth yn San Steffan, a oedd yn mynd rhagddo adeg y cyfarfod)

Hefyd yn bresennol:
Wendy Bryant, Rheolwr Ymchwil, Uned Ymddiriedolaeth y BBC (o eitem 49 ymlaen)
Will Jackson, Pennaeth Strategaeth Sain a Cherddoriaeth (ar gyfer eitem 49)
Roger Mosey, Cyfarwyddwr Llundain 2012 (ar gyfer eitem 51)
Amanda Farnsworth, Swyddog Prosiect Gweithredol Llundain 2012 (ar gyfer eitem 51)

Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru, Ymddiriedolaeth y BBC, staff:
Karl Davies, Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru Wales
Siôn Brynach, Cynghorydd Atebolrwydd, Cymru Wales
Clair Baguley, Cynorthwyydd Adrannol, Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru Wales
Harald Bretschneider, Lleoliad Profiad Gwaith, Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru Wales

45. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Rob Humphreys
Alex McMillan
Menna Richards, Cyfarwyddwr BBC Cymru Wales
Keith Jones, BBC Cymru Wales, Pennaeth Rhaglenni, Cymraeg a Chyfryngau newydd

46. BUSNES YR YMDDIRIEDOLAETH (YN BREIFAT)

Rhannodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol gyda'r Cyngor rai o'r datblygiadau yn gysylltiedig ag adroddiad terfynol yr Arglwydd Carter, *Digital Britain*, y disgwylid iddo gael ei gyhoeddi oddeutu 16eg Mehefin. Hysbysodd y Cyngor nad oedd unrhyw awgrym amlwg o hyd ynglŷn â chyfeiriad terfynol yr adroddiad. Fodd bynnag, roedd Ymddiriedolaeth y BBC wedi bod yn glir y dylai unrhyw ddatblygiadau greu yn hytrach na throsglwyddo gwerth, na ddylid gwanhau'r rheolaeth olygyddol, weithredol nac annibyniaeth y BBC mewn unrhyw ffordd ac y dylai Ymddiriedolaeth y BBC barhau i reoli ffi'r drwydded. Roedd trafodaethau'n parhau ynglŷn â chyswllt posibl rhwng BBC Worldwide a Channel 4 ond roedd hyn yn dal yn gymhleth iawn.

Roedd araith Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC i'r Gymdeithas Teledu Frenhinol ym mis Mai wedi bod yn achlysur pwysig. Roedd disgwyl hefyd i Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi ei adroddiad yn ystod yr wythnos yn dechrau 7fed Mehefin. Hysbyswyd y Cyngor hefyd fod yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol a'r Cadeirydd wedi cwrdd â Chadeirydd Awdurdod S4C ym mis Mai a bod hyn wedi braenaru'r tir ar gyfer cychwyn trafodaethau ynglŷn â Chytundeb Partneriaeth Strategol newydd.

Mynegodd y Cyngor ei bryder ynglŷn â'r erthygl a oedd wedi ymddangos yn y *Western Mail* y diwrnod hwnnw a oedd yn awgrymu brigdorri Ffi'r Drwydded er mwyn hyrwyddo darpariaeth teledu cyfrwng Saesneg yng Nghymru. Dywedodd y Cyngor ei fod yn cydnabod ei bod yn anodd iddo ef fel Cyngor leisio barn ar y ddadl bresennol ynglŷn â darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan fod prinder cynigion pendant i ymateb iddynt. Mynegodd y Cyngor ei bryder hefyd ynglŷn â'r nifer cynyddol o gyrff ac unigolion a oedd yn hawlio lle ym maes darlledu yng Nghymru.

Hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor fod Ymddiriedolaeth y BBC wedi dweud yn glir na fyddai'n ystyried brigdorri Ffi'r Drwydded ac na fyddai'r BBC yn y dyfodol yn barod i weithredu fel cyfrwng i'r hyn a oedd, mewn gwirionedd, yn dreth gyffredinol.

Dywedodd y Cyngor fod hyn yn cael ei weld, o safbwynt y gynulleidfa, fel dadl esoterig gan mwyaf nad oes iddi fawr o berthnasedd i gynulleidfaoedd ond roedd y Cyngor yn cydnabod bod y ddadl ynglŷn â chorff comisiynu i newyddion cyfrwng Saesneg yng Nghymru yn bwysig iawn yn wir. Cytunodd y Cyngor y byddai am ddarparu cyngor i Ymddiriedolaeth y BBC ar y cynigion a ryddheir gan Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol a darparu safbwynt cynulleidfaoedd Cymru ar adroddiad *Digital Britain*. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n gwneud trefniadau i gyfarfod o'r Cyngor gael ei alw ar 19eg Mehefin i alluogi'r Cyngor i lunio cyngor ar gyfer Ymddiriedolaeth y BBC.

ymunodd y rheolwyr â'r cyfarfod

47. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL A'R MATERION YN CODI

Derbyniwyd y rhain fel adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod blaenorol. Nid oedd materion yn codi.

48. ADRDODIADAU

Hysbyswyd y Cyngor fod yr Adolygiad Gwasanaeth o Radio 2 a 6 Music wedi cychwyn a hysbyswyd yr aelodau fod pecyn o ddeunyddiau wedi cael ei anfon atynt i'w helpu yn ystod yr adolygiad. Gofynnwyd i aelodau'r cyngor gysylltu â'u rhwydweithiau personol a phroffesiynol i glywed barn ar y gwasanaethau.

Tynnodd y Pennaeth Llywodraethu sylw aelodau'r Cyngor at bapur Ymddiriedolaeth y BBC ar y ffordd y mae'n cysylltu â chynulleidfaoedd. Er ei fod yn croesawu'r papur, dywedodd y Cyngor ei fod yn ystyried y cynigion yn llai na delfrydol a'u bod yn ymddangos yn hen-ffasiwn a chyfyngedig eu cwmpas o'u cymharu â'r ffordd y mae sectorau eraill – fel y sector gwirfoddol – yn mynd ati i gysylltu, gan ddarparu cyfle i lywio gwasanaethau.

Cyfeiriodd y Pennaeth Llywodraethu at y digwyddiadau chwaraeon a oedd wedi'u rhestru (y prif drysorau) ac ymateb drafft y Cyngor. Cymeradwyodd y Cyngor yr ymateb drafft.

Yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol

Disgrifiodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y darlun dryslyd sy'n amgylchynu'r gwaith o baratoi adroddiad *Digital Britain*.

Dywedodd fod Gweithrediaeth y BBC wedi cynhyrchu dogfen ddiddorol ar chwaeth a safonau a gâi ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf gyda sylwebaeth gan Ymddiriedolaeth y BBC ac y câi'r Cyngor gyfle i'w hystyried maes o law.

Roedd darllediadau etholiadol y pleidiau wedi bod yn fwy cymhleth yn y cyfnod yn arwain at etholiadau Ewropeaidd y 4ydd Mehefin nag yn y blynyddoedd a fu gan fod mwy o bleidiau wedi cyflwyno ymgeiswyr nag yn y gorffennol.

Cyfarwyddwr Cymru

Yn absenoldeb Cyfarwyddwr Cymru cafodd ei hadroddiad ei gyflwyno gan Bennaeth Rhaglenni (Saesneg) BBC Cymru Wales.

Hysbysodd y Cyngor fod Cyfarwyddwr Cymru, Mark Byford a hithau wedi cyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor Dethol Materion Cymreig Senedd San Steffan ym mis Mai. Cawsant eu holi ynglŷn â pherthynas y BBC ag S4C, a'r gydberthynas rhwng cynhyrchu ar gyfer y Rhwydwaith a darpariaeth BBC Cymru Wales ar gyfer Cymru. Disgwylid i adroddiad y pwyllgor hwn gael ei gyhoeddi ychydig ddiwrnodau ar ôl adroddiad Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol.

Roedd Pwyllgor Cyllid Gweithrediaeth y BBC wedi cymeradwyo'r cynigion drafft am bentref drama ym Masn y Rhath ym Mae Caerdydd, ac roedd gwaith pellach ar y gweill yn awr ar gynigion i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Gorffennaf. Roedd opsiwn annibynnol o ran Casualty yn dal o dan ystyriaeth.

Hysbyswyd y Cyngor y byddai cystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd y BBC yn dechrau yr wythnos ddilynol a bod Neuadd Hoddinott y BBC wedi ennill gwobr bensaernïol fawr yn ddiweddar.

Adroddiad y Bwrdd

Dywedodd y Cyngor ei fod yn croesawu gwasanaeth Newyddion helaeth y BBC ar S4C ond mynegodd beth pryder ynglŷn â'r slot 3pm, lle gallai cyflwyno newyddion – yn ystod rhaglen *Wedi 3* a gynhyrchir gan Tinopolis - greu'r argraff ymysg gwylwyr mai newyddion a gâi ei gynhyrchu fel rhan o *Wedi 3* oedd hyn yn hytrach na newyddion yn cael ei ddarparu gan y BBC.

49. CYFLWYNIAD AR YR ADOLYGIAD O GYFLENWAD RADIO'R BBC

Croesawyd Pennaeth Strategaeth Sain a Cherddoriaeth y BBC i'r cyfarfod ac amlinellodd rai o'r gwahaniaethau gwrando a ganfuwyd yng ngwahanol wledydd y DU fel rhan o'r

ymchwil a wnaed fel sail i'r Adolygiad o'r Cyflenwad Radio Rhwydwaith. Amlinellodd hefyd y gwahaniaeth ym maint y cyllid sydd ar gael i radio o'i gymharu â theledu, lle'r oedd gan deledu £1,900m tra oedd gan radio £440m.

Ar hyn o bryd mae 10 Rhwydwaith radio'r BBC i'r DU gyfan yn cael eu cyflenwi o 7 lleoliad cynhyrchu o amgylch y DU – Glasgow, Belffast, Manceinion, Birmingham, Bryste, Caerdydd a Llundain – a'r olaf sy'n cael y gyfran fwyaf o'r gwariant ar gynnyrch Radio Rhwydwaith. Erbyn 2012 byddai Radio 5 Live wedi symud i Salford.

Roedd cynhyrchu radio Rhwydwaith y tu allan i Lundain yn cael ei seilio ar ymrwymiad sydd wedi bodoli ers amser hir o draean o'r gwariant cymwys. Golygai hyn fod gan radio Rhwydwaith y BBC ymrwymiad gwirfoddol y dylai traean o'r rhaglenni cymwys (rhaglenni gwreiddiol yn cael eu darlledu am y tro cyntaf heb gynnwys newyddion a chwaraeon) fod y tu allan i'r M25. Hysbysodd y Cyngor fod gan Radio 3 darged penodol o 2/5 i wariant y tu allan i Lundain (er nad oedd gan unrhyw orsafoedd Rhwydwaith eraill dargedau penodol) a chyfeiriodd hefyd at yr isafswm cwota o 1/10 o Radio Rhwydwaith i gael ei gynhyrchu'n annibynnol – 10% o'r holl oriau cymwys (rhaglenni gwreiddiol yn cael eu darlledu am y tro cyntaf heb gynnwys newyddion). Hysbysodd y Cyngor fod 31.4% o'r gwariant cymwys y tu allan i Lundain yn 2008/09, ac o'r ganran honno roedd y grwpiau perfformio i gyfrif am 9.3%.

Fel rhan o'r Adolygiad, cynhaliwyd Ymchwil i Gynulleidfaoedd. Amcanion yr ymchwil oedd yr angen i:
1. Deall pa mor dda y mae cynulleidfaoedd yn teimlo y maent yn cael eu cynrychioli gan Radio Rhwydwaith y BBC
2. Canfod y dangosyddion allweddol o ran cynrychioli (e.e. acenion cynhyrchu).

Rhannodd Pennaeth Strategaeth Cymru gyda'r Cyngor rai o'i argraffiadau ar ôl bod i ddigwyddiadau ymchwil cynulleidfaoedd. Gwnaeth angerdd cynulleidfaoedd wrth sôn am Radio BBC argraff arno, ynghyd â'r pwysigrwydd y mae cynulleidfaoedd yn ei roi ar ansawdd a'r cysylltiad y maent yn ei deimlo â chyflwynwyr unigol. Canfu'r ymchwil hefyd fod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi cael eu cynrychioli yn fawr iawn.

Canfu'r ymchwil fod cynulleidfaoedd yn segmentu eu gwrando yn ôl eu hangen am gymeriad lleol. Er syndod, nid oedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd yn gwrthwynebu mewn egwyddor mai yn Llundain y gwneir mwyafrif helaeth y gwaith cynhyrchu – er bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gwrthwynebu hyn yn fwy na'r rhai yn rhanbarthau Lloegr. Dyfyniad gan berson o Gaerdydd oedd "dylai'r gyllideb gael ei gwario mewn ffordd sy'n dod â ffyniant i ardal ehangach na dim ond canol Llundain. Ond mae ansawdd yn fwy pwysig".

Roedd yr ymchwil wedi nodi bod cynhyrchu gwaith radio o bob rhan o'r DU ar gyfer y Rhwydwaith yn bwysig er mwyn cysylltu â chynulleidfaoedd y BBC, ond fod rhaid i hynny fod ar raddfa genedlaethol ac o ansawdd a pherthnasedd cenedlaethol. Roedd ansawdd yn hollbwysig i gynulleidfaoedd yn ôl yr ymchwil ac roedd angen sicrhau bod y cynnyrch i gyd, lle bynnag y caiff ei gynhyrchu, yn cyrraedd safonau uchel y BBC.

Roedd yr ymchwil wedi nodi hefyd ei bod yn bwysig i bobl fod Radio Rhwydwaith yn canfod ac yn datblygu'r doniau gorau o bob cwr o'r DU.

Nododd yr angen i Radio BBC ddarparu cymhellion o blaid penderfyniadau sy'n darparu'r hyn y mae cynulleidfaoedd yn gweld gwerth ynddo, ac i orsafoedd Radio Rhwydwaith

weithio gyda'r gwledydd a rhanbarthau Lloegr i wireddu hynny (drwy, er enghraifft, ddigwyddiadau), gan feithrin mwy o adnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth o weithgareddau y tu allan i Lundain drwy hynny.

Dywedodd Pennaeth Rhaglenni (Saesneg) BBC Cymru Wales ei bod yn adeg amserol i wneud y darn strategol hwn o waith, yn rhannol am nad oedd digon o gynyrchiadau Rhwydwaith wedi dod i Gymru yn hanesyddol i sicrhau cynaliadwyedd gwaith cynhyrchu radio Rhwydwaith. Dywedodd y Cyngor ei fod yn cydnabod yr angen i fàs critigol o waith cynhyrchu Rhwydwaith ar gyfer y radio gael ei greu yng Nghymru er mwyn denu rhagor o gynyrchiadau Rhwydwaith i BBC Cymru.

Gwnaeth y Cyngor y pwynt fod llawer o bobl yng Nghymru, oherwydd yr anawsterau trosglwyddo mewn llawer rhan o Gymru, yn methu cael gorsafoedd radio cenedlaethol Cymru ar FM na DAB, a bod portread o Gymru ar orsafoedd Radio Rhwydwaith y BBC yn bwysicach fyth iddynt felly.

Cydnabu Pennaeth Strategaeth Sain a Cherddoriaeth y BBC fod cyfleoedd i symud elfennau Rhwydwaith o bwys allan o Lundain ond ailadroddodd y pwynt nad oedd yn ymddangos i'r grŵp adolygu, ar hyn o bryd, mai targed, fel yr un a ddeilliodd o'r adolygiad o'r Cyflenwad Rhwydwaith Teledu, oedd y ffordd ymlaen.

Mynegodd y Cyngor ei bryder ynglŷn â defnyddio'r gair 'targed' mewn perthynas â'r Adolygiad o'r Cyflenwad Rhwydwaith Teledu, gan mai ei ddealltwriaeth oedd mai llawr oedd cynhyrchu 17% o'r rhaglenni Rhwydwaith y tu allan i Lundain yn hytrach na nenfwd.

Cadarnhaodd y Cyngor y pwynt a wnaed gan y Pennaeth Rhaglenni Saesneg ei bod yn dyngedfennol i elfennau sy'n dychwelyd gael eu comisiynu y tu allan i Lundain gan fod hynny'n rhoi cyfle i dimau cynhyrchu deimlo'n rhan o gymuned yr orsaf radio yn ogystal â'r gymuned yn eu canolfan gynhyrchu.

50. CYFLWYNIAD AR YR AROLWG O GYLCH GWAITH DIBENION YMDDIRIEDOALETH Y BBC

Amlinellodd Rheolwr Ymchwil Ymddiriedolaeth y BBC yr egwyddorion allweddol sy'n sail i'r ymchwil, sef mesur barn y rhai sy'n talu ffi'r drwydded am flaenoriaethau'r BBC o fewn pob Diben (canfod beth sy'n bwysig iddynt, a pha mor dda y mae'r BBC yn perfformio), deall sut roedd canfyddiadau yn amrywio o fewn gwahanol grwpiau cynulleidfa, tynnu sylw at ddibenion a blaenoriaethau a oedd yn bwysig ond lle'r oedd perfformiad y BBC ar lefel isel ('bylchau perfformio') a deall sut mae barn pobl yn newid dros amser. Hysbysodd y rheolwr Ymchwil y Cyngor fod 2260 o oedolion wedi cael eu cyfweld yn y DU yn ystod dau gyfnod o bythefnos yn hwyr yn 2008 ac yn chwarter cyntaf 2009, gyda hanner ohonynt yn cael eu cyfweld wyneb yn wyneb a'r hanner arall yn cael eu cyfweld ar-lein. O'r rhain, cynhaliwyd 329 o gyfweliadau yng Nghymru, ac roedd y canlyniadau drwyddynt draw wedi cael eu pwysoli yn ôl demograffeg, ethnigrwydd a mynediad i'r rhyngrwyd i sicrhau eu bod yn gynrychiadol o boblogaeth y DU drwyddi draw.

Cymru oedd â'r gyfran uchaf o holl wledydd y DU a oedd yn cymeradwyo'r BBC yn fawr, ar 46%. A throi at y berthynas â'r BBC, roedd 86% yng Nghymru yn cytuno "Byddwn yn gweld eisiau'r BBC pe na bai yno" o'i gymharu ag 83% yn y DU gyfan.

Roedd cynnydd bach yn y teimlad fod y BBC yn cynnig gwerth da am arian yng Nghymru a dim ond un o bob deg oedolyn yng Nghymru fyddai'n hoffi newid y BBC yn sylweddol – a oedd yn is na gwledydd eraill y DU. Fodd bynnag, teimlai chwarter yr oedolion yng

Nghymru fod y BBC yn amherthnasol iddynt, a oedd yn ymddangos yn groes i'r casgliadau eraill.

Y bwlch perfformiad mwyaf a nododd yr ymchwil yng Nghymru oedd y bwlch rhwng y disgwyliadau o ran y Diben o Gynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau, a'r hyn a gâi ei gyflawni.

Hysbysodd y Cyngor fod y Diben Creadigrwydd hefyd yn methu cyrraedd y disgwyliadau yng Nghymru, er y bu cynnydd yn y sgoriau perfformiad a phwysigrwydd ers yr arolwg diwethaf yn 2007.

Roedd y sgoriau perfformiad yn isel yn gyson o ran y Diben o Gynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau. Ymysg y sylwadau cafwyd beirniadaeth o fethiant y BBC i adlewyrchu'r Gymru newydd ddatganoledig ac roedd teimlad hefyd fod y BBC yn wael am adlewyrchu Cymru i wledydd eraill y DU.

Roedd y Diben Addysg yn un lle'r oedd y BBC yn perfformio'n dda yn gyson ac felly hefyd y Diben Dinasyddiaeth. Nid ystyrid bod y BBC yn perfformio'n dda o ran helpu pobl i ddeall sut mae technolegau newydd yn gweithio ond roedd yn cael ei ystyried yn llwyddiannus iawn yn cyflwyno persbectif byd-eang i gynulleidfaoedd.

Teimlai'r Diben o annog defnyddio technolegau cyfathrebu newydd yn amherthnasol i lawer o'r rhai a holwyd yn ystod yr ymchwil ac felly ni nodwyd unrhyw fylchau perfformiad arwyddocaol yng nghyswllt y Diben hwn gan nad oedd yn cael ei ystyried yn bwysig. Fodd bynnag, roedd diffyg hygyrchedd yn arwain at deimladau eraill megis y rheini mewn dyfyniad gan un person o Gymru - "Gan nad yw llawer o'r technolegau newydd hyn ar gael i mi oherwydd fy lleoliad daearyddol, rwyf yn gwarafun i'r BBC ddefnyddio fy ffi drwydded i i hyrwyddo'r technolegau hyn."

51. CYFLWYNIAD GAN ROGER MOSEY, CYFARWYDDWR LLUNDAIN 2012 Y BBC A CHYFARWYDDWR CHWARAEON Y BBC

Amlinellodd Cyfarwyddwr Llundain 2012 y BBC hanes Gemau Olympaidd yn Llundain yn y gorffennol ym 1908 a 1948. Amlinellodd hefyd bwysigrwydd y Gemau o safbwynt llwyfan byd-eang, a phwysleisiodd eu bod yn gyfuniad gwych o chwaraeon a drama.

Yn ystod Gemau Olympaidd Beijing roedd y gynulleidfa a gyrhaeddwyd yn y DU wedi cyrraedd 74%, gydag 8.5m o ddefnyddwyr ar-lein yn ystod wythnos 2 – sy'n record – a 28m o geisiadau am ffrwd fideo (o'i gymharu â 2.6m o geisiadau am ffrwd fideo yn ystod Gemau Olympaidd Athen yn eu cyfanrwydd). Roedd porth fideo Chwaraeon y BBC wedi cael ei ddatblygu ar gyfer Gemau Olympaidd Beijing ac roedd darparu dewis o chwaraeon wedi bod yn boblogaidd iawn gyda'r gwylwyr.

Pwysleisiodd nad y BBC yw'r prif gynhyrchydd ar gyfer Llundain 2012 (ond y Gwasanaeth Darlledu Olympaidd) ond fod y BBC wedi sicrhau holl hawliau amlblatfform y DU ar gyfer Gemau 2012.

Hysbysodd y Cyngor nad oedd hawliau darlledu'r Gemau Paralympaidd wedi cael eu dyfarnu eto ac y byddai'r rhain yn cael eu gwerthu gan y ddinas gynnal. Y gobaith oedd y byddai'r BBC yn llwyddo i'w hennill.

Cydnabu fod "cyfyng-gyngor Llundeinaidd" o ran sicrhau bod y DU gyfan yn teimlo bod ganddi ran yn y gemau. Ar hyn o bryd, dyma oedd rhan Cymru yn y Gemau:

- pêl-droed yn cael ei lwyfannu yn Stadiwm y Mileniwm
- yr Olympiad diwylliannol
- taith y ffagl
- gwersylloedd ymarfer
- cynlluniau Pwyllgor Trefnu Llundain i'r DU o ran y Gemau Olympaidd.

Roedd Cymynrodd gemau 2012 yn allweddol i'r trefnwyr ac eisoes mae'r stori i ddangos sut mae chwaraeon yn datblygu yn cael ei dilyn ar y ffordd i 2012. Roedd llawer yn cael ei wneud drwy addysg gyda rhwydwaith adrodd Olympaidd a gefeillio wedi'i sefydlu gydag 20,000 o ysgolion yn y DU.

Roedd gwaith ar y gweill hefyd ynglŷn ag ymwneud y BBC â'r seremonïau agoriadol a chau.

Roedd ystyriaethau golygyddol o bwys – yn amlwg yn eu plith, fater rhoi sylw i noddwyr. Roedd diogelwch hefyd yn fater o bwys i'r Gemau Olympaidd, fel yr oedd darparu gwybodaeth i'r cyhoedd.

Roedd y materion pennawd allweddol i'r BBC yn cynnwys defnyddio:
- Amlblatfform/Aml-sianel
- Defnyddio parthau darlledu fel bod yr unigolion hynny nad ydynt am wylio'r Gemau Olympaidd yn gallu dod o hyd i raglenni eraill i'w gwylio
- Cyfathrebu mewn perthynas â'r Gemau
- Marchnata rhaglenni

Roedd Gemau Olympaidd 2012 yn debygol o gael y gynulleidfa deledu fwyaf erioed a byddai haf 2012 hefyd yn cynnwys Jiwbilî Diemwnt y Frenhines. Awgrymodd mai hwn efallai fyddai y pwynt allweddol er hyrwyddo teledu digidol a chyflwyno gwasanaethau drwy ffyrdd amgen ac roedd uchelgais i roi sylw i bob digwyddiad Olympaidd yn fyw ar ryw blatfform neu'i gilydd – 5,000 o oriau o chwaraeon.

Cododd y Cyngor yr ymdeimlad negyddol sy'n bodoli i ryw raddau yng Nghymru tuag at y Gemau Olympaidd oherwydd yr arian Loteri y mae prosiectau yng Nghymru wedi'i golli oherwydd y gwariant ar y Gemau a gofynnodd a oedd cyfleoedd y gellid tynnu sylw atynt, er enghraifft, darlledu pêl-droed o Stadiwm y Mileniwm yng Nghymru.

Gofynnodd y Cyngor i ba raddau y câi Cymru ei chynrychioli yn y darlledu o'r Gemau a'r digwyddiadau cysylltiol megis yr Olympiad Diwylliannol. Dywedodd Pennaeth 2012 fod llawer iawn o feddwl yn digwydd ynglŷn ag effaith hyn ar bob rhan o'r DU ac ar natur y digwyddiadau, ac atgoffodd y Cyngor y gallai digwyddiadau cyntaf Gemau Olympaidd 2012 fod o Gymru mewn gwirionedd gan fod y twrnamaint pêl-droed yn dechrau cyn Seremoni Agoriadol y Gemau.

Gofynnodd y Cyngor a fyddai pobl leol yn cael eu dewis y tro hwn i gario'r ffagl Olympaidd a chadarnhaodd Pennaeth 2012 fod trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd i weld a allai'r BBC yn ogystal â phrif noddwyr y ffagl ddewis unigolion i gario'r ffagl Olympaidd.

52. MATERION BLAENORIAETH I YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

1. Mae'r Cyngor yn tynnu sylw'r Ymddiriedolaeth at y ddadl gynyddol rymus yng Nghymru ynglŷn â dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn arbennig yr angen i sicrhau bod nifer o ffynonellau rhaglenni teledu cyfrwng Saesneg ar gael yng Nghymru, yn enwedig ym maes Newyddion a Materion Cyfoes. Disgwylir argymhellion polisi allweddol gan Gynulliad

Cenedlaethol Cymru a Senedd San Steffan ym mis Mehefin. Bydd Cyngor Cynulleidfa Cymru yn cwrdd ar 19eg Mehefin i lunio cyngor i'r Ymddiriedolaeth ar y materion hyn fel y byddant yn effeithio ar Gymru a bydd cynulleidfaoedd a'r rhai sy'n llywio barn yng Nghymru yn disgwyl i Ymddiriedolaeth y BBC gyfrannu at y ddadl gyhoeddus ynglŷn â'r rhain.

2. Mae'r Cyngor yn mynegi ei bryder ynglŷn â'r diffyg ymrwymiad sydd yna yn ei farn ef yn yr Adolygiad o'r Cyflenwad Radio Rhwydwaith i sicrhau bod y comisiynu ar raglenni Radio Rhwydwaith yn cael ei wasgaru'n deg ar draws y DU.

53. CADARNHAU DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Atgoffwyd y Cyngor y byddai ei gyfarfod nesaf ar 3ydd Gorffennaf 2009 yn Nhŷ Darlledu'r BBC, Caerdydd ac y byddai digwyddiad cysylltu â'r gynulleidfa yn cael ei gynnal i'r Cyngor a Chymdeithas Alzheimer fin nos yr 2il Gorffennaf yn y Ganolfan Ddarlledu, Caerdydd.